Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Cylch Gwaith
# Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad Cyhoeddi:
Gorffennaf 2024

Dyddiad Adolygu:
Gorffennaf 2025

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae pedair egwyddor sy'n sail i  waith y Comisiynydd, sef:

- Statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru
- Y dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod (neu a all gael eu gosod) drwy gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny
- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:

- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: post@cyg-wlc.cymru
- Gwefan: comisiynyddygymraeg.cymru

# Cynnwys


1 Cefndir y Panel Cynghori 4
2 Penodi'r Panel Cynghori 4
3 Rôl y Panel Cynghori 5
4 Cadeirydd y Panel Cynghori 6
5 Hyfforddiant 6
6 Gwrthdaro Buddiannau 6
7 Rhoddion a Lletygarwch 7
8 Cyffredinol 7
9 Rhybudd am gyfarfodydd 8
10 Cyfarfodydd 8
11 Ymddygiad 8

# 1 Cefndir y Panel Cynghori

1.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (y "Mesur") yn darparu ar gyfer sefydlu Comisiynydd y Gymraeg.

1.2 Mae Rhan 3, Cymal 23 (1) i (4) o'r Mesur hefyd yn darparu ar gyfer sefydlu panel o gynghorwyr i'r Comisiynydd a gaiff ei alw'n Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

1.3 Penodir y Panel gan Weinidogion Cymru. Nid yw aelodau'r Panel Cynghori yn gyflogeion i Lywodraeth Cymru.

1.4 Bydd aelodau'r Panel Cynghori wedi ymrwymo i gytundeb Telerau ac Amodau gyda Gweinidogion Cymru o ran eu penodiad ar y Panel, a bydd disgwyl i aelodau ymddwyn yn unol â'r cytundeb hwnnw (y "Cytundeb").

1.5 Nid yw Comisiynydd y Gymraeg yn atebol i'r Panel, ond mae gan y Comisiynydd y gallu i ofyn am gyngor a gweithreda'r Comisiynydd ar sail trafodaethau gyda'r Panel.

# 2 Penodi'r Panel Cynghori

2.1 Mae Atodlen 4, Rhan 1, o'r Mesur yn nodi bod angen i Weinidogion Cymru gydymffurfio gyda rheoliadau penodi (Rheoliadau Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2012 (y "Rheoliadau")) wrth benodi aelod i'r Panel Cynghori.

2.2 Mae Atodlen 4 o'r Mesur hefyd yn amlinellu agweddau penodi, tâl cydnabyddiaeth, lwfansau a phensiynau, telerau penodi, cyfnod penodiad a rheoliadau penodi.

2.3 Telir tâl cydnabyddiaeth a threuliau i aelodau'r Panel Cynghori gan Gomisiynydd y Gymraeg drwy'r gyflogres. Caiff aelodau'r Panel Cynghori eu talu'n unol ac Atodiad 1- Ffioedd a Chostau'r Panel.

2.4 Mae'r Rheoliadau yn nodi'r egwyddorion sydd i'w dilyn gan Weinidogion wrth benodi aelod o'r Panel Cynghori.

2.5 Bydd aelod o'r Panel Cynghori yn dal ei swydd yn ddarostyngedig i delerau ei benodiad. Bydd person yn aelod o'r Panel Cynghori am gyfnod o 3 blynedd.

2.6 Caiff Gweinidogion ystyried adnewyddu aelodaeth aelod o'r Panel am 3 blynedd bellach, ond bydd hyn ar eu disgresiwn ac yn unol â gofynion y Rheoliadau.

2.7 Bydd aelodau yn gweithio lleiafswm o 6 i 8 diwrnod y flwyddyn.

2.8 Mae Atodlen 4, Rhan 2, Cymalau 6 i 9 o'r Mesur yn nodi fod angen i aelod o'r Panel Cynghori roi hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru o fwriad i ymddiswyddo o leiaf 2 fis ymlaen llaw. Mae'r mesur yn nodi caiff Gweinidogion Cymru ddiswyddo aelod o'r Panel Cynghori os ydynt wedi ei bodloni nad yw'r person yn ffit i barhau neu os nad yw'n gallu neu'n fodlon gweithredu fel aelod o'r Panel Cynghori. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori a'r Comisiynydd cyn diswyddo aelod o'r Panel Cynghori. Yn ogystal

â'r uchod bydd y Cytundeb yn nodi amgylchiadau eraill lle mae posib i Weinidogion derfynu penodiad aelodau.

2.9 Mae Atodlen 4, Rhan 3, Cymal 10 o'r Mesur yn nodi fod person yn cael ei anghymwyso rhag bod yn aelod o'r Panel Cynghori ar sail cyflogaeth os yw'r person yn Aelod Seneddol, yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn aelod o Dribiwnlys y Gymraeg neu yn aelod o staff y Comisiynydd.

2.10 Mae person yn anghymwyso rhag bod yn Gomisiynydd wrth fod yn aelod o'r Panel Cynghori.

# 3 Rôl y Panel Cynghori

3.1 Caiff y Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori ynghylch unrhyw fater[1]. Rôl y Panel Cynghori yw cynghori'r Comisiynydd mewn perthynas â swyddogaethau'r Comisiynydd yn unol â'r Mesur.

3.2 Os bydd y Comisiynydd, mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau, yn ymgynghori â'r Panel Cynghori **rhaid** i'r Comisiynydd roi sylw i'r ymgynghoriad wrth arfer y swyddogaethau[2].

3.3 Nid yw'r Panel Cynghori yn ymwneud â gwaith o ddydd i ddydd y Comisiynydd nag yn cael proffil cyhoeddus.

3.4 Mae'r dyletswyddau fel a ganlyn:

- **Caiff** y Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori wrth baratoi pob adroddiad blynyddol[3].
- Mae **rhaid** i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori wrth baratoi pob adroddiad 5 mlynedd[4].
- Mae **rhaid** i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori wrth gynnal ymchwiliad safonau[5]. Ar ôl cynnal ymchwiliad safonau, bydd rhaid i'r Comisiynydd lunio adroddiad safonau. Wedi llunio'r adroddiad safonau ar ôl cynnal ymchwiliad safonau rhaid i'r Comisiynydd anfon copi at y Panel Cynghori[6]
- **Caiff** y Comisiynydd ddyroddi codau ymarfer at ddiben darparu canllawiau ymarferol am ofynion unrhyw safonau[7]. Rhaid i'r Comisiynydd beidio â dyroddi, adolygu neu dynnu'n ôl god ymarfer safonau heb gysyniad Gweinidogion Cymru. Cyn ceisio'r cydsyniad hwnnw **rhaid** i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori.

[1] Rhan 3, Cymal 24(1) o'r Mesur
[2] Rhan 2, Adran 17 o'r Mesur
[3] Rhan 2, Adran 19 (1) (a) o'r Mesur
[4] Rhan 2, Adran 6 (1) (a) o'r Mesur
[5] Rhan 4, Adran 63 (3) o'r Mesur
[6] Rhan 2, Adran 64 (4) o'r Mesur
[7] Rhan 4, Adran 68 (1 - 4) o'r Mesur

- **Caiff** y Comisiynydd ymgynghori gyda’r Panel wrth gynllunio’r gwaith ar ei Gynllun Strategol a chynlluniau Gweithredol ac wrth baratoi'r Adroddiad Sicrwydd.
- **Caiff** y Comisiynydd ofyn i'r Panel am gyngor ar ei berfformiad yn erbyn ei gynllun gweithredol a’i amcanion strategol.
- Sicrhau y cedwir at Egwyddorion Nolan.
- Unrhyw ddyletswydd arall fel sydd wedi ei nodi o fewn y Cytundeb.

# 4 Cadeirydd y Panel Cynghori

4.1 Rôl Cadeirydd y Panel Cynghori fydd arwain y Panel ond nid oes ganddo unrhyw bŵer i weithredu ar eu rhan heb gyfarwyddiadau, ag eithrio mewn achos o argyfwng. Yn ymarferol, bydd y Cadeirydd yn:

- sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn effeithiol
- ystyried a chytuno’r agenda ar gyfer pob cyfarfod ar y cyd â Chomisiynydd y Gymraeg
- cyfathrebu gyda’r aelodau rhwng cyfarfodydd a gweithredu fel llefarydd ar ran y Panel Cynghori yn ôl yr angen.

4.2 Caiff y Cadeirydd ei ethol gan gyd-aelodau’r Panel. Bydd penodiad am dymor o dair blynedd gydag opsiwn i barhau am ail gyfnod. Bydd cytuno’r ail gyfnod yn ddarostyngedig i drefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ymestyn cyfnod aelodaeth o’r Panel.

# 5 Hyfforddiant

5.1 Bydd gan holl aelodau’r Panel Cynghori anghenion hyfforddi a datblygu a bydd y Comisiynydd wedi eu hadnabod mewn sesiynau rheoli perfformiad blynyddol rhwng yr Aelodau a’r Cadeirydd neu sgyrsiau rheolaidd rhwng yr Aelodau a’r Cadeirydd.

5.2 Bydd aelodau newydd yn derbyn hyfforddiant cynefino i’w helpu i ddeall eu rôl a deall y sefydliad.

# 6 Gwrthdaro Buddiannau

6.1 Bydd pob aelod o’r Panel Cynghori (ynghyd a’r Comisiynydd a’i holl staff) yn cwblhau datganiad buddiannau pob chwe mis. Bydd datganiadau aelodau’r Panel Cynghori, aelodau’r Pwyllgor Archwilio a Risg, y Comisiynydd, y Dirprwy Gomisiynydd a thîm Rheoli’r Comisiynydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd. Bydd hyn yn hybu tryloywder a llywodraethu cadarn.

6.2 Bydd disgwyl i aelodau (ynghyd a staff y Comisiynydd) roi gwybod i Gyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol y Comisiynydd pe byddai unrhyw newid o ran eu buddiannau cyn gynted ag sy’n bosib.

6.3 Os bydd gan Aelod neu swyddog, neu unrhyw berthynas iddo ef neu hi, ddiddordeb ariannol neu ddiddordeb perthnasol neu sylweddol arall, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mewn unrhyw fater sy'n ymwneud â'r Panel Cynghori, bydd gofyn i'r aelod neu'r swyddog ddatgelu'r ffaith honno cyn trafod yr eitem honno ac ni fydd yn cymryd rhan wrth drafod y mater, nac yn pleidleisio ar unrhyw gwestiwn mewn cysylltiad ag ef.

6.4 Bydd Cadeirydd y Panel Cynghori yn penderfynu a fydd datgelu diddordeb felly'n cyfateb i wrthdaro mewn diddordeb a bydd yn penderfynu mewn achosion felly a ddylai fod angen i'r aelod neu'r swyddog adael y cyfarfod. Mewn achosion lle mae'r Cadeirydd wedi datgelu diddordeb, y Comisiynydd ddylai farnu a yw hynny'n cyfateb i wrthdaro mewn diddordeb, ac a oes angen i'r Cadeirydd adael y cyfarfod.

# 7 Rhoddion a Lletygarwch

7.1 Ni ddylai aelodau dderbyn unrhyw roddion neu letygarwch a allai ymddangos i fod yn peryglu dyfarniad neu uniondeb personol yr aelod neu'n gwneud yn destun rhwymedigaeth amhriodol. Os bydd yr aelod yn dewis derbyn rhodd neu letygarwch, mae'n rhaid cofnodi hyn ar gofrestr gyhoeddus y Panel.

7.2 Disgwylir i aelodau'r Panel gydnabod y gallai'r ffaith i aelodau dderbyn rhoddion a lletygarwch wynebu gwaith craffu cwbl gyhoeddus. Dylid hysbysebu ysgrifenyddiaeth y Panel Cynghori am unrhyw gynigion a wnaed ac unrhyw gynigion a wrthodwyd.

7.3 Dylid sicrhau fod cofnod o unrhyw roddion neu letygarwch a dderbyniwyd, neu gwrthodwyd yn cael ei wneud ar Gofrestr Rhoddion cyhoeddus y Panel Cynghori.

# 8 Cyffredinol

8.1 Mae Rhan 3, Cymal 23 o'r Mesur yn nodi y bydd o leiaf 3, ond dim mwy na 5 o aelodau ar y Panel Cynghori ar unrhyw adeg. Caiff y Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori ynghylch unrhyw fater, gan ymgynghori ag unrhyw un neu ragor neu oll o aelodau'r Panel.

8.2 Bydd angen i'r Panel ymgymryd ac ymarfer hunan asesu unwaith y flwyddyn. Bydd hefyd angen i aelodau o'r Panel gynnal sesiwn rheoli perfformiad yn flynyddol (gweler uchod). Mae'r Comisiynydd wedi dirprwyo'r swyddogaeth o gynnal sesiynau rheoli perfformiad yr aelodau i Gadeirydd y Panel. Y Comisiynydd ei hun fydd yn asesu perfformiad y Cadeirydd.

8.3 Fe ddylai Cadeirydd y Panel Cynghori a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg y Comisiynydd gyfarfod fel sydd angen er mwyn trafod unrhyw fater sydd, yn eu tyb nhw, angen ei drafod.

# 9 Rhybudd am gyfarfodydd

9.1 Caiff rhybudd i fynychu cyfarfodydd o'r Panel Cynghori ei gylchredeg 14 diwrnod cyn y cyfarfod un ai drwy e-bost neu drwy'r post arferol gan nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod a'r busnes i'w drafod. Bydd papurau yn cael eu cylchredeg i aelodau'r Panel 7 diwrnod cyn y cyfarfod.

# 10 Cyfarfodydd

10.1 Cynhelir cyfarfodydd yn rhithiol neu wyneb yn wyneb.

10.2 Pan bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb, byddent yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd gan amlaf. Gall cyfarfodydd gael eu cynnal mewn lleoliadau ledled Cymru o bryd i'w gilydd.

10.3 Comisiynydd y Gymraeg fydd yn darparu ysgrifenyddiaeth i'r Panel Cynghori ac yn llunio cofnodion. Bydd y cofnodion ar gael yn y Gymraeg.

10.4 Cymraeg fydd iaith y cyfarfodydd a bydd cyfieithydd yn bresennol i gyfieithu os fydd hynny'n angenrheidiol.

10.5 Bydd y Panel Cynghori yn cyfarfod 3 gwaith y flwyddyn. Bydd disgwyl i aelodau'r Panel fynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd.

10.6 Bydd disgwyl i aelodau'r Panel neilltuo amser i baratoi ar gyfer y cyfarfodydd. Gallai'r patrwm hwn amrywio dros y 3 blynedd yn ôl llwyth gwaith y Comisiynydd.

10.7 Cadeirydd y Panel, pan fydd yn bresennol, fydd yn llywyddu yng nghyfarfodydd y Panel Cynghori.

10.8 Os bydd y Cadeirydd y Panel Cynghori yn absennol, bydd aelodau'r Panel yn dewis aelod i lywyddu yn y cyfarfod hwnnw.

10.9 Gall Cadeirydd y Panel Cynghori, yn dilyn cais gan y Comisiynydd, alw cyfarfodydd ychwanegol fel y gwêl orau.

10.10 Ni fydd cyfarfodydd y Panel yn agored i'r cyhoedd.

10.11 Ar gyfer pob cyfarfod o'r Panel, bydd yr aelodau'n derbyn:

- Trosolwg strategol o waith y Comisiynydd
- Adroddiadau Cynnydd Chwarterol ar y Cynllun Gweithredol, er gwybodaeth.

# 11 Ymddygiad

11.1 Os bydd unrhyw Aelod yn gyson yn anwybyddu rheolaeth Cadeirydd y Panel Cynghori drwy ymddwyn yn afreolaidd, yn amhriodol neu'n dramgwyddus, neu'n fwriadol yn

rhwystro busnes Comisiynydd y Gymraeg, gall y Cadeirydd neu unrhyw aelod arall gynnig “na chaiff yr aelod a enwir ei glywed mwyach” neu “bod yr aelod a enwyd yn gadael y cyfarfod” a chaiff y cynnig, os caiff ei eilio, ei gyflwyno a’i benderfynu heb drafodaeth.